Band Chwyth Symffonig William Mathias

Taith i'r Eidal, Awst 2011

Mae Band Symffonig William Mathias yn ymweld â'r Eidal eleni a hyn yn dilyn yn dilyn ymweliad y *Corpo Filarmonico "Giovanni Rinaldi"*, a'u h'arweinydd Paolo de Gaspari â Gogledd Cymru yng Ngwanwyn 2009 fel rhan o daith gyfnewid ddiwylliannol.

Pryd? Dydd Llun, **Awst 22** – Dydd Gwener, **Awst 26**, 2011.

Ble? Reggiolo yn nhalaith Emilia-Romagna. Tref fechan ysblennydd yw Reggiolo (poblogaeth t.9,000) gyda chastell prydferth, canolfan siopa gyda siopau *pizzeria*, hufen iâ a chacennau!

Llety. Yn ystod ein arhosiad, ni fydd unig breswylwyr y Gwesty 'Villa Nabila' (www.hotelvillanabila.it) yng nghanol y dref lle byddwn yn cael gwely a brecwast. Mae'r ystafelloedd gwely naill ai'n ystafelloedd pâr neu'n ystafelloedd yn cysgu tri. Mae pob ystafell gydag ystafell ymolchi yn gysylltiedig, gyda system "air-con". Mae'n westy sydd â phob cyfleuster ac yn lân iawn. Mae'r staff hefyd yn siarad Saesneg. Darperir cinio a phryd gyda'r nos gan arlwywyr o'r tu allan mewn ysgol gynradd gyfagos.

Mae'r **ysgol gerdd** (Circolo Musicale "Giovanni Rinaldi" di Reggiolo – www. bandarinaldi.it) ble caiff yr ymarferiadau eu cynnal, hefyd gyda system air-con ac wedi'i leoli yn gyfleus iawn, union dros ffordd i'r gwesty. Mae'n adeilad newydd, modern gyda cylfeusterau ardderchog. Mae archfarchnad dda drws nesaf i'r ysgol gerdd.

CYNLLUNIAU

Cyngherddau:
Mae tri cyngerdd awyr agored wedi eu trefnu (sy'n beth arferol yn yr Eidal yn yr Haf) , gydag un cyngerdd ar y cyd â'r band Eidalaidd. Cynhelir ymarferion yn y boreau lle bydd ein chwaraewyr yn cael cyfle i gael eu hyfforddi gan yr athrawon cerdd o'r Eidal yn ogystal.

Ymweliadau :

Mae ymweliadau â Mantova, Carpi, Verona ac amgueddfa Ferrari yn Maranello wedi ei drefnu.

Mae Mantova yn ddinas syfrdanol, wedi eu h'amgylchynu ar dair ochr gan lynnoedd . Yma hefyd mae un o lysoedd mwyaf oes y Dadeni yn Ewrop, sydd yn gartref i deulu cyfoethog Gonzaga (gyda dim ond 500+ ystafell yn eu palas). Yn 2008, daeth Mantova yn Safle Treftadaeth Byd UNESCO. **Bu'r palas dugol yn ysbrydoliaeth i'r opera** *Rigoletto* gan **Verdi** ac roedd y ddinas yn gefndir i ffilm diweddar o'r opera. Bydd yr ŵyl flynyddol yn cael ei chynnal ar yr un pryd â'n h'ymweliad, felly mae pethau'n argoeli i fod yn fywiog iawn!

Carpi oedd cartref gwyliau'r teulu Gonzaga a cheir ynddo sgwâr sydd bron cymaint â sgwâr y Fatican. Mae'r sgwâr yn gilometr o hyd, gyda siopau mewn rhan ohono a llwyfan awyr agored ar gyfer cynnal cyfres o gyngherddau ble rydym yn bwriadu perfformio.

Ni fuasai ymweliad â **Verona** yn gyflawn heb gael golwg ar falconi Romeo a Juliet a bydd y daith yn diweddu gydag ymweliad â'r arena opera i fwynhau *Aida* gan Verdi gyda'i effeithiau syfrdanol, cast enfawr a cherddorfa ddwbl.

Iechyd a Diogelwch. Bydd uchafswm cymhareb staff i fyfyrwyr yn 1:10. Gallai'r tymheredd fod yn boeth, hyd at 37°(bydd digonedd o ddŵr ar gael). Mae'r ganolfan feddygol leol gyferbyn â'r gwesty, ar lawr gwaelod yr adeilad ble mae'r ysgol gerdd wedi ei lleoli, c mae staff o saith meddyg ar y llawr gwaelod. Ceir gorsaf ambiwlans gerllaw, ac yn y nos ceir yno feddyg teulu yn ogystal â pharafeddygon, ac mae ysbyty fawr 10 milltir i ffwrdd. Mae asesiad risg llawn wedi ei gwblhau o'r daith gyfan. Bydd polisi di-alcohol llwyr ar y daith, beth bynnag yw'r oedran.

Disgwylir i bob chwaraewr fod ag yswiriant teithio gan drosglwyddo copi i'n staff pan archebir tocynnau ar gyfer y daith

Mae'r Cyfarwyddwr, y Rheolwr ac aelod o'r staff wedi ymweld â'r Eidal ac maent wrth eu boddau â'r trefniadau, yn arbennig y cyfleoedd sydd ar gael i'n myfyrwyr. Mae'n bur bosibl bydd newid yn y cynlluniau yn ystod y cyfnod cyn ein h'ymweliad. Bwriedir cynnal cyfarfod o'r rhieni cyn y daith .

Côst: Gwir gôst y daith i bob unigolyn yw £550 yn cynnwys y daith awyren, gwesty, prydau bwyd (namyn yr ymweliad i Verona), ymweliadau a chludiant bws. **FODD BYNNAG,** mae sawl ymdrech codi arian ar y gweill ar hyn o bryd all ddod a'r gôst i lawr i £350 y pen. Nid oes sicrwydd o hyn a disgwylir i bawb sydd yn dod ar y daith fod yn rhan weithredol o'r ymdrechion codi arian (e.e. gwerthu tocynnau raffl / chwarae mewn cyngerdd codi arian).

Mae nifer y lleoedd yn gyfyngedig. Er mwyn archebu lle cyn gynted â bo modd, cwblhewch y ffurflen isod os gwelwch yn dda a'i dychwelyd at: Ann Pritchard Jones, GYWM, Galeri, Doc Fictoria, Caernarfon, LL55 1SQ. Bydd cais am flaendal yn dilyn.

Band Chwyth Symffonig William Mathias

CAIS I DDOD AR Y DAITH TAITH I'R EIDAL

Enw: ……..

Cyfeiriad: …….....

……..

……..

Rhif ffôn: …….....

E-BOST: .....

Offeryn …….

Ysgol: …….

Tiwtor: …….